# Cyfarfod Pwyllgor Busnes yr Asiantaeth Safonau Bwyd – Medi 2022

Cynhelir Cyfarfod Pwyllgor Busnes yr ASB cyn cyfarfod Bwrdd yr ASB, a gynhelir ddydd Llun 26 Medi.

Mae'r ddau gyfarfod yn cael eu cynnal ar-lein yn unig, ar ôl cael eu gohirio yn dilyn marwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II.

Bydd cyfarfod y Pwyllgor Busnes yn cael ei gadeirio gan Gadeirydd yr ASB, yr Athro Susan Jebb, a gallwch gofrestru i wylio'r cyfarfod ar-lein.

Mae agenda cyfarfod y Pwyllgor Busnes y prynhawn yma yn cynnwys:

- Adroddiad ar Berfformiad ac Adnoddau Chwarter 1 2022-23
- Proses Dadansoddi Risg: diweddariad i'r Pwyllgor Busnes
- Gwasanaeth Cynhyrchion Rheoleiddiedig: diweddariad rheolaidd i'r Pwyllgor Busnes
- Adroddiad Blynyddol: Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Cwynion Allanol ac Achosion Chwythu'r Chwiban Mewnol
- Adroddiad Blynyddol ar Ddigwyddiadau a Gwytnwch 2021/22
- Adroddiad Blynyddol ar Les Anifeiliaid 2021/22

Mae'r agenda lawn a'r papurau sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer y ddau gyfarfod ar gael ar dudalennau'r Bwrdd ar ein gwefan.

#### Sut i gofrestru i wylio cyfarfodydd y Pwyllgor Busnes a'r Bwrdd ar-lein

Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor Busnes a'r Bwrdd ym mis Medi 2022 ar-lein, gyda dim ond aelodau'r bwrdd yn y cyfarfod ei hun. Mae modd cofrestru i wylio'r cyfarfodydd hyn yn fyw ar-lein.

Os oes angen help arnoch i gofrestru, neu os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni:

- Ffôn: 01772 767731
- E-bost: fsaboardmeetings@glasgows.co.uk

Mae modd cyflwyno cwestiynau am y papurau a fydd yn cael eu trafod yng nghyfarfod y Bwrdd ddydd Llun 26 Medi tan 12pm heddiw (Dydd Gwener 23 Medi) drwy anfon e-bost i Board.Sec@food.gov.uk?